NEWPORT LIVE
CASNEWYDD FYW

# RHEOLWR GWERTHIANNAU A MARCHNATA

## Gradd 9 : £34,408 i £38,531 ynghyd â buddion

Mae Casnewydd Fyw yn ymddiriedolaeth elusennol sy'n gweithredu Theatr, Celfyddydau a Diwylliant, a Chwaraeon a Hamdden yn bennaf ar draws Dinas Casnewydd ond hefyd ymhellach i ffwrdd, ein gweledigaeth yw Ysbrydoli pobl i fod yn hapusach ac yn iachach.

Mae Casnewydd Fyw yn gyfrifol am reoli a gweithredu Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon, Canolfan Casnewydd, y Ganolfan Byw'n Actif, y Ganolfan Gyswllt, a Phentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd, sy'n cynnwys y Ganolfan Tennis a Nofio Ranbarthol, Felodrom Geraint Thomas a Stadiwm Casnewydd.

Mae Casnewydd Fyw hefyd yn ymgysylltu â nifer o bartneriaid i greu, datblygu a chyflwyno rhaglen arloesol o Raglenni Datblygu Celfyddydau a Chwaraeon Cymunedol a Lles ledled y gymuned ac ardaloedd lle rydym yn darparu gwasanaethau.

Wrth i Casnewydd Fyw symud i gam nesaf ei ddatblygiad a chyda chyfleuster newydd sbon ar y gorwel, mae'n amser cyffrous i ymuno â'r ymddiriedolaeth elusennol. Rydym yn awyddus i ddatblygu pobl sy'n cymryd perchnogaeth o gyflawni ac sy'n angerddol am gyflawni'r lefel uchaf bosibl o berfformiad ym mhopeth a wnânt – pobl sy'n agored i syniadau, i gydweithio, i heriau ac i ffyrdd newydd o feddwl a gweithio.

Oherwydd dyrchafiad mewnol, mae Casnewydd Fyw yn awyddus i recriwtio person eithriadol i'r swydd Rheolwr Gwerthiannau a Marchnata, sy'n rhan allweddol o'r gwaith o greu, datblygu a chyflwyno strategaeth Farchnata, Gwerthiannau, Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu graidd ar gyfer y busnes cyfan, mae'r swydd yn allweddol i lwyddiant parhaus yr elusen.

Bydd y Rheolwr Gwerthiannau a Marchnata yn cymryd cyfrifoldeb uniongyrchol am y tîm marchnata, ochr yn ochr â chynlluniau gwerthiannau a marchnata ar draws yr ymddiriedolaeth, tra'n cydweithio ar draws y busnes cyfan i sicrhau bod strategaethau gwerthiannau a marchnata tactegol sy'n cael eu gyrru gan ganlyniadau yn llwyddiannus, drwy gynllunio, actifadu, gweithredu a mesur trylwyr ac effeithiol, yr holl ffactorau llwyddiant allweddol sy'n llywio'r swyddogaeth gwerthiannau a marchnata.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus o leiaf 3 blynedd o brofiad perthnasol mewn amgylchedd gwerthu a marchnata masnachol. Cymhwyster marchnata uwch cydnabyddedig, profiad o weithio gyda'r cyfryngau, cynllunio strategol, llwyfannau digidol, e-farchnata ac amgylcheddau cyfryngau cymdeithasol, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gyflawni'n gyson ar werthiannau a thargedau yn erbyn cyllidebau.

Am drafodaeth anffurfiol ynglŷn â'r swydd gallwch gysylltu â'r Cyfarwyddwr Datblygu Busnes, Andrea Ovey drwy e-bost andrea.ovey@newportlive.co.uk

### Proses Ymgeisio

Gallwch lawrlwytho ffurflen gais a disgrifiad swydd o wefan Casnewydd Fyw www.casnewyddfyw.co.uk neu fel arall, maent ar gael trwy wneud cais mewn e-bost i jobs@newportlive.co.uk

Dychwelwch y ffurflenni cais cyflawn i jobs@newportlive.co.uk

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Iau 31 Mawrth 2022 am 2pm**

**Cynllunnir cynnal cyfweliadau ar: Dydd Mercher 20 a dydd Iau 21 Ebrill 2022**


# DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **SWYDD:** | Rheolwr Gwerthiannau a Marchnata |
| **DIBEN Y SWYDD:** | Bydd y rôl hon yn arwain ac yn rheoli'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r holl strategaethau marchnata a gwerthu er mwyn ehangu cyrhaeddiad yr elusen ac yn y pen draw gyrru gwerthiant ac incwm yn ogystal â lefelau ymateb, traffig nifer yr ymwelwyr, nawdd, cyfranogiad ac ymgysylltu.<br><br>Arwain ar Gysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu ar gyfer Casnewydd Fyw i gyd a bod yn warcheidwad brand i'r ymddiriedolaeth elusennol. |
| **YN ATEBOL I'R:** | Cyfarwyddwr Datblygu Busnes |
| **CYFLOG:** | £34,408 - £38,531 (Gradd 9 PCG 37-41) |
| **PERTHNASOEDD ALLWEDDOL:** | Bwrdd a Thîm Gweithredol Casnewydd Fyw. Tîm Datblygu Busnes, arweinwyr a rheolwyr cynnyrch Casnewydd Fyw, a holl gydweithwyr Casnewydd Fyw.<br>Cysylltiadau â'r Wasg a'r Cyfryngau, partneriaid allanol a rhanddeiliaid, cwsmeriaid a'r cyhoedd. |
| **LLEOLIAD:** | Mae'r swyddfa ym Mhentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd yn bennaf – sef pencadlys Casnewydd Fyw. Mae'n rhaid i chi allu teithio rhwng lleoliadau Casnewydd Fyw a lleoliadau allanol yn ôl yr angen. |
| **CYFRIFOLDEBAU RHEOLI:** | Swyddogion Gweithredol Marchnata, Dylunydd Graffeg a Digidol a Chynorthwyydd Marchnata Digidol. |

**Byddaf yn llwyddiannus yn fy rôl pan**:

- Fydd fy holl gyfrifoldebau gweithredol allweddol yn cael eu cyflawni'n gyson i safon uchel.
- Byddaf yn cyflawni'r holl ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n benodol i'm rôl.
- Byddaf yn fodel rôl ar gyfer gwerthoedd ymddygiadol Casnewydd Fyw drwy fy mherfformiad.
- Byddaf fyn cydweithio ar draws adrannau a gwasanaethau i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol i gwsmeriaid Casnewydd Fyw.

**Sut mae fy mherfformiad yn cael ei fesur:**




**Datgelu a Gwahardd:**
Gall y swydd hon olygu y byddwch mewn cysylltiad â phlant, yr henoed, pobl sâl neu anabl. Mae Casnewydd Fyw yn gofyn felly, yn ôl Gorchymyn (Eithriadau) Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, 1975, Deddf Plant 1989 a/neu Ddeddf yr Heddlu 1997, i chi ddatgelu unrhyw euogfarn droseddol, gorchymyn rhwymo neu rybudd, gan gynnwys y rhai a ystyrid fel eu bod wedi eu disbyddu. Rhaid i chi gwblhau'r adran berthnasol ar y ffurflen gais. Bydd ceisiadau'n cael eu dychwelyd os yw'r adran hon yn anghyflawn.  Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn destun Gwiriad Datgelu a Gwahardd.

**Y RÔL A CHYFRIFOLDEBAU**

1. Perchnogaeth, datblygiad a gweithrediad y Marchnata, Gwerthu, Strategaeth Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu ar gyfer Holl Casnewydd Fyw, gan gymryd cyfrifoldeb uniongyrchol am yr holl gynlluniau marchnata a gwerthu, cydweithio ar draws yr elusen gyfan i yrru gwerthiant ac incwm, yn ogystal ag ymateb, nifer yr ymwelwyr, traffig, nawdd, cyfranogiad ac ymgysylltu.

2. Cymryd perchnogaeth o frand Casnewydd Fyw a'r holl is-frandiau sy'n gysylltiedig ag ef, gan reoli'r hunaniaeth brand gyffredinol a phroffil mewnol ac allanol yr elusen, gan sicrhau bod Casnewydd Fyw yn parhau i barchu ei ddull dwyieithog o weithredu a'i fod yn cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg.

3. Creu, datblygu, cyflwyno a gweithredu ymgyrchoedd, cysyniadau marchnata a strategaethau gwerthu i gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol Casnewydd Fyw, gan sicrhau bod y rhain yn gwbl gynhwysol ac yn ceisio ymgysylltu â'r cymunedau amrywiol ledled y ddinas a chynnwys strategaethau busnes i fusnes a busnes i ddefnyddwyr ym mhob maes o'r elusen.

4. Rheoli'r cyllidebau priodol er mwyn sicrhau bod nodau strategol yn cael eu cyflawni yn unol â pholisi caffael a rheoliadau ariannol Casnewydd Fyw. Meithrin dealltwriaeth o ymwybyddiaeth ariannol a busnes ar draws pob tîm, gan sicrhau enillion mesuradwy ar fuddsoddiad a'u halinio â dangosyddion perfformiad allweddol sefydliadol, gan gynnwys targedau gwerthu, cyfranogi ac ymgysylltu.

5. Rheoli cyfathrebu ynglŷn â chyfathrebu marchnata a gwerthu yn rhagweithiol er mwyn rhoi diweddariadau gwerthiant a pherfformiad cywir ac amserol i holl aelodau'r tîm, ynghyd â data, sylwebaeth a diweddariadau ffrydiau incwm a chwilio am gyfleoedd i wella a chroes-werthu.

6. Rheoli a datblygu gwefannau a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol Casnewydd Fyw, er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael profiad rhagorol. Sicrhau hefyd fod y brand yn cael ei weld ar draws pob llwyfan yn y ffordd fwyaf effeithiol ac yn sail i'r cynllun strategol marchnata digidol ac yn cefnogi llwyfannau ar-lein ychwanegol gan gynnwys apiau digidol Casnewydd Fyw.

7. Gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ym mhob rhan o'r elusen gan ddefnyddio datrysiadau rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (RhCC) a llwyfannau digidol i ddadansoddi a datblygu ymhellach y dull digidol sy'n cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar ddatblygiadau newydd gan gynghori ar brofiad a defnydd cwsmeriaid. Annog, ysgogi a monitro cynnwys ar draws pob platfform er mwyn sicrhau ymgysylltiad effeithiol â'r holl gwsmeriaid, y rhai presennol a'r rhai posibl.

8. Creu a datblygu'n barhaus y cynlluniau cyfryngau cymdeithasol ac e-farchnata gyda'r Rheolwyr Gweithredol a Chynnyrch a'u cefnogi, gan ddefnyddio llwyfannau allanol perthnasol ac addas, gwybodaeth fusnes ac offer RhCC i nodi a gweithredu cyfleoedd am welliant parhaus, tra'n sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth GDPR.

9. Ymgymryd ag ymchwil a datblygu strategaethau dadansoddi'r farchnad i sicrhau bod gan Casnewydd Fyw ymwybyddiaeth lawn a manwl o'r farchnad y mae'n gweithredu ynddi. Gall hyn fod ar lefel leol, genedlaethol neu ryngwladol. Cynghori drwy adroddiadau amserol ar y sefyllfa bresennol a'r cynlluniau i ddatblygu a bwrw ymlaen i'r dyfodol.

10. Arwain ar gysylltiadau cyhoeddus sefydliadol, gan ddefnyddio'r holl gyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus posibl a'r cyfleoedd sy'n datblygu, gan adolygu effeithiolrwydd cysylltiadau cyhoeddus er mwyn sicrhau proffiliau cyfryngau bywiog. Nodi a mynd ar drywydd llwyfannau cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol priodol, gohebwyr, blogwyr a dylanwadwyr penodol a sianelau priodol.

11. Arwain cyfleoedd strategol yn y cyfryngau, gan gynnwys datganiadau i'r wasg, gwybodaeth gefndir a phecynnau i'r wasg i ategu straeon newyddion ac ymgyrchoedd newyddion. Rhoi cyngor ac arweiniad i weithwyr Casnewydd Fyw wrth ddelio â phob ymholiad gan y cyfryngau a cheisiadau am gyfweliadau a gwybodaeth.

12. Trefnu a mynychu digwyddiadau, lansiadau, galwadau lluniau a digwyddiadau cyfathrebu mewnol gan weithredu fel Llysgennad Brand Casnewydd Fyw. Datblygu a chytuno ar negeseuon allweddol i fynychwyr, cyfranogwyr, cwsmeriaid, gweithwyr Casnewydd Fyw, a phartneriaid strategol ar draws holl raglenni gweithgarwch a meysydd yr elusen yn ogystal â bod ar gael i gynorthwyo mewn digwyddiadau mawr yn ôl y gofyn.

13. Arwain ar weithredu strategaeth berthynas busnes i fusnes gan ddod ag incwm i'r elusen drwy feithrin, cynnal a gwella perthynas â chefnogwyr allweddol, noddwyr, hysbysebwyr a grwpiau corfforaethol gan fynd ati i reoli'r gronfa ddata.

14.

15. Bod yn Arweinydd a Rheolwr effeithiol ar bobl yn unol â holl bolisïau a gweithdrefnau Casnewydd Fyw gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: recriwtio a hyfforddi, gwerthusiadau cyflogeion, rheoli perfformiad a disgyblaeth, rheoli ariannol ar gyfer y gyflogres a phrosesau eraill gan gynnwys caffael contractau, mynd i'r afael â chwynion, a datrys materion personél.

16. Sicrhau y glynir wrth safonau gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol a'u darparu drwy fonitro cofnodion canmoliaeth a chwynion yn rheolaidd. Mynd ati i gydnabod a dehongli data er mwyn gweithredu'n effeithiol yn ôl yr angen i sicrhau yr ymatebir i adborth yn briodol ac yn amserol. Adolygu adborth yn rheolaidd a gweithredu camau priodol i sicrhau cefnogaeth gan bawb yn y tîm.

17. Rheoli a chefnogi perthynas â'r holl randdeiliaid a chyflenwyr yn effeithiol ac yn rhagweithiol i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i Casnewydd Fyw.

18. Dangos esiampl i eraill gan weithredu mewn modd rhagweithiol ac addasadwy, a chreu amgylchedd lle rydych yn hyrwyddo proffesiynoldeb, gonestrwydd ac uniondeb wrth i chi ryngweithio â'ch tîm, y sefydliad ehangach, rhanddeiliaid a chwsmeriaid.

19. Sicrhau y cedwir at yr holl bolisïau a chynlluniau bob amser gan gynnwys Diogelu, Iechyd a Diogelwch, Cod Ymddygiad, a holl bolisïau eraill Casnewydd Fyw.

Gweithredu bob amser er lles Casnewydd Fyw ac fel Llysgennad i'r sefydliad, gan groesawu Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd yr elusen, cyflawni'r strategaethau, eu trawsnewid yn weithredoedd ac ymgysylltu â phob cynulleidfa a chymuned ar draws y rhanbarth.

Mae disgwyl i'r person sy'n gwneud y swydd hon weithio o fewn polisïau, ethos a nodau Casnewydd Fyw a chyflawni dyletswyddau eraill y gallai Prif Weithredwr Casnewydd Fyw eu rhoi iddo. Mae'r cyfrifoldebau uchod yn destun y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau cyffredinol sydd yn y Datganiad Amodau Cyflogaeth. Gall dyletswyddau'r swydd hon amrywio o bryd i'w gilydd heb newid naws gyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb sydd ynghlwm wrthi. Bydd deiliad y swydd yn gweithio i gyflawni amcanion perfformiad y cytunir arnynt; caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd ac yn ffurfiol trwy brosesau rheoli perfformiad Casnewydd Fyw.

# RHEOLWR GWERTHIANNAU A MARCHNATA – MANYLEB PERSON

| Maes | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymwysterau** | 1.1 Addysgwyd i lefel gradd neu o leiaf 3 blynedd o brofiad mewn rôl Gwerthu a Marchnata. (A)<br><br>1.2. Diploma mewn Marchnata Proffesiynol gan y Sefydliad Marchnata Siartredig neu gymhwyster cyfatebol. (A) | 1.3. Aelodaeth o gorff marchnata / gwerthu proffesiynol. (Ca/Cy)<br><br>1.4. Cymhwyster Marchnata Uniongyrchol a Digidol neu brofiad cyfatebol. (A) |
| **Gwybodaeth, Sgiliau a Medrau** | 2.1. Gwybodaeth ymarferol wych a phrofiad o ddatblygu, rheoli a gweithredu mentrau gwerthu a marchnata. (Cy/Cyfl)<br><br>2.2 Dealltwriaeth eang a thrylwyr o lwyfannau digidol, cyfryngau cymdeithasol, a mathau traddodiadol o gyfryngau. (Cy/Cyfl)<br><br>2.3 Hanes o gyflawni targedau'n llwyddiannus yn erbyn perfformiad o ran gwerthiant a marchnata. (Cy/Cyfl)<br><br>2.4 Gallu sefydlu a chynnal perthnasoedd mewnol ac allanol. (Cy)<br><br>2.5 Gwybodaeth am ddeddfwriaeth a chydymffurfiaeth GDPR. (Ca/Cy)<br><br>2.6 Yn fedrus ac yn wybodus o ran deall patrwm y gwerthiant, o farchnata effeithiol hyd at brynu drwy gau'r gwerthiant. (Ca/Cy)<br><br>2.7 Bod yn bendant ac i ddangos canlyniadau drwodd o'r dechrau i'r diwedd. (Ca/Cy)<br><br>2.8 Rheoli llwyfannau digidol yn llwyddiannus, gan gynnwys gwefannau, cyfryngau cymdeithasol a chymwysiadau digidol. (Cais/Cyfw/Cyfl) | 2.9 Diddordeb ac ymwybyddiaeth o dechnegau marchnata digidol sy'n dod i'r amlwg a sut y gallant gefnogi cynhyrchiant (Ca/Cy).<br><br>2.10 Rhwydwaith datblygedig o gysylltiadau â'r cyfryngau. (Cy)<br><br>2.11 Gwybodaeth eang am y sectorau celfyddydau, diwylliant, chwaraeon a hamdden. (Ca/Cy)<br><br>2.12 Gallu cyfathrebu yn Gymraeg (Ca/Cy)<br><br>2.13 Profiad o weithio ochr yn ochr â thîm dylunio graffig. (Ca/P)<br><br>2.14 Datblygu timau sy'n fedrus i drosi ymholiad yn werthiant er mwyn cyrraedd targedau refeniw a chyfranogiad. (Ca/Cy) |
| **Profiad** | 3.1 O leiaf 3 blynedd o brofiad ym maes gwerthu a marchnata masnachol a datblygu strategaeth. (Ca/Cy) | 3.12 Profiad o weithio mewn amgylchedd amlddisgyblaethol. (Ca/Cy) |

| | | |
|---|---|---|
| | 3.2 Profiad o reoli tîm marchnata neu werthu. (Ca/Cy)<br><br>3.3 O leiaf 3 blynedd o brofiad o reoli ymgyrchoedd gwerthu a marchnata llwyddiannus gan gynnwys profiad o ddadansoddi trosiannau gwerthiant. (Ca/Cy)<br><br>3.4 Profiad o adolygu ac adrodd ar enillion ar fuddsoddiad, canlyniadau a datblygu mesurau llwyddiant mewn perthynas ag ymgyrchoedd marchnata a holl allbynnau'r tîm marchnata. (Ca/Cy)<br><br>3.5 Profiad o weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid (Cy)<br><br>3.6 Profiad a gallu i reoli nifer o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar Twitter, Facebook, YouTube, Instagram, LinkedIn, Snapchat, ac ati, gan gynnwys y tu allan i oriau gwaith rheolaidd. (Ca/Cy) | 3.13 Profiad o reoli mewn adran gwerthu a marchnata yn y sectorau celfyddydau, diwylliant, chwaraeon a hamdden. (Ca/Cy)<br><br>3.11 Profiad o reoli brand. (Cy)<br><br>3.12 Profiad o reoli a monitro cyllideb fawr, gwariant ariannol, a chynhyrchu incwm (Cy) |
| **Nodweddion Personol** | 4. Unigolyn wedi'i yrru, profiadol mewn arwain a hyfforddi i ddatblygu ac ysbrydoli. (Ca/Cy)<br><br>4.1 Sgiliau llafar, ysgrifenedig a rhyngbersonol ardderchog (Ca/Cy)<br><br>4.2 Y gallu i weithio dan bwysau. (Ca/Cy)<br><br>4.3 Gallu meddwl a gweithio'n strategol. (Cy/Cyfl)<br><br>4.4 Sgiliau cynllunio a threfnu rhagorol. (Cy/P)<br><br>4.5 Ymrwymiad personol i berfformiad llwyddiannus yn y gweithle. (Cy/Cyfl)<br><br>4.6 Bydd gofyn i chi weithio'n hyblyg gan gynnwys boreau cynnar, gyda'r nos ac ar benwythnosau yn rheolaidd, gan gynnwys cefnogi digwyddiadau ar draws yr elusen. (A) | 4.7 Gallu cyflwyno technegau hyfforddi i gydweithwyr. (Cy)<br><br>4.8 Brwdfrydedd i arwain, ysbrydoli a llwyddo. (Cy/Cyfl)<br><br>4.9 Sgiliau arwain a rheoli pobl. (Ca/Cy) |
| **Arall** | 4.10 Y gallu i deithio ar draws holl leoliadau Casnewydd Fyw yn rheolaidd (Ca) | 4.11 Rhaid cael mynediad i'w drafnidiaeth ei hun<br>a bod yn barod i deithio rhwng lleoliadau Casnewydd Fyw yn rheolaidd. (A) |

**Dull asesu**

A: Ffurflen gais (gan gynnwys llunio rhestr fer)
C: Tystygrif
E: Ymarfer Corff
I: Cyfweliad
P: Cyflwyniad
Ff: Prawf
AC: Canolfan Asesu